Cofnodion cyfarfod y **PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU** a gynhaliwyd o bell drwy fideogynhadledd
**ddydd Mercher, 28 Gorffennaf 2021**

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Lynford Thomas (Cadeirydd), John Adams-Lewis, Bryan Davies, Ceredig Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Odwyn Davies, Paul Hinge, Peter Davies MBE, Rhodri Davies, Dafydd Edwards, Rhodri Evans, Gwyn James, Maldwyn Lewis, Gareth Lloyd, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason, Rowland Rees-Evans a Wyn Thomas

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd John Roberts

**Swyddogion yn bresennol:** Mr Russell Hughes Pickering, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio, Mr Jonathan Eirug – Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r Gogledd, Mrs Gwennan Jenkins, Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu'r De, Ms Elin Prysor – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, a Mrs Dana Jones, Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Safonau

(10:00am –1:05pm)

1. **Personol**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

   Estynnwyd cydymdeimlad â'r Cynghorydd Ifan Davies yn sgil marwolaeth ei fam.

   Estynnodd y Cynghorydd Paul Hinge gydymdeimlad â theulu'r Arglwydd Elystan Morgan a oedd wedi marw'n ddiweddar.

   Estynnwyd llongyfarchiadau i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ar godi ymwybyddiaeth o ganser y prostad drwy gymryd rhan yn nigwyddiad y Big Walk. Ei darged oedd cwblhau 310 milltir ym mis Gorffennaf. Byddai dolen at y dudalen codi arian yn cael ei dosbarthu ymhlith yr Aelodau.

2. **Ymddiheuriadau**

   Roedd y Cynghorwyr Ifan Davies a Catherine Hughes wedi ymddiheuro am nad oedd modd iddynt ddod i'r cyfarfod.

3. **Datgan buddiannau personol a/neu fuddiannau sy'n rhagfarnu**

   Bu i'r Cynghorydd Rowland Rees-Evans ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A200862, ond roedd wedi cael caniatâd gan y Pwyllgor Moeseg a Safonau i siarad ynghylch y cais.

   Bu i'r Cynghorwyr John Adams-Lewis, Dafydd Edwards, Rhodri Evans a Gareth Lloyd ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A201067.

   Bu i'r Cynghorydd Gethin Davies ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng nghais A210062.

   Bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yng ngheisiadau A201067 ac A210077.

4. **Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021**

   **PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim.

5. **Ceisiadau cynllunio a ohiriwyd yng nghyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch y ceisiadau cynllunio a ganlyn a drafodwyd yn un o gyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor ac yr oedd angen iddo eu hystyried ymhellach:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Robert Thomas (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A200862 Codi annedd, Tycoch, Trefenter, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais i ganiatáu mwy o amser neu 'gyfnod callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr Aelodau, ystyried arwyddocâd y gwyriad, ac ystyried y risgiau cyn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ym mis Medi.

**Rheswm:**
Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad ac am y risgiau cyn penderfynu'n derfynol.

---

6. **Ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol**
Trafodwyd adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ynghylch ceisiadau datblygu, hysbysebu, statudol a'r awdurdod lleol:-

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Ffrindiau Erw Goch (Gwrthwynebwyr) a Mr Dylan Green (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A201067 Cais cynllunio hybrid sy'n cynnwys: A) Cais cynllunio amlinellol gyda'r holl faterion wedi'u cadw'n ôl (ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cynnwys yn y cais llawn isod) ar gyfer datblygiad preswyl i'w ddatblygu fesul cam a'r gwaith cysylltiedig; B) Cais llawn ar gyfer datblygiad preswyl a gwaith cysylltiedig, gan gynnwys darparu man agored/chwarae cyhoeddus, ffordd ddosbarthu newydd o Gefnesgair i Heol Waunfawr, trefniadau peirianyddol a draenio, mesurau lliniaru ecolegol, gwaith tirweddu a gwaith cysylltiedig, Tir sy'n cydffinio â Hafan y Waun, Waunfawr, Aberystwyth

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais i gael gwybod am ganlyniad y cais i gael statws Maes Pentref cyn ystyried y cais cynllunio, i gael cadarnhad gan SSE a Dŵr Cymru fod seilwaith priodol yn ei le ganddynt i ddarparu ar gyfer y datblygiad preswyl hwn yn sgil materion a godwyd gan Aelodau, ac i ddarparu cynllun rheoli ar gyfer yr ardal chwarae well dros y tymor hir.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Llyr Evans (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210062 Cais i leoli wyth caban gwyliau hunanarlwyo, ynghyd â ffordd fynediad, mesurau tirweddu a gwaith cysylltiedig, Tir i'r gorllewin o Westy Penrallt, Aberporth

**CYMERADWYO'R** cais yn ddibynnol ar amodau.

---

Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig Mr Rhys Norrington-Davies (Ymgeisydd) a Mr Alex Smith (Asiant) i'r Pwyllgor yn unol â'r atodiad dros dro i'r weithdrefn weithredol sy'n caniatáu i'r cyhoedd annerch y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn sgil Covid-19.

A210077 Dymchwel y stablau presennol a chodi annedd breswyl, gan gynnwys parcio, tirweddu a gwaith atodol, Tir yn Nhyn-y-cae, Tal-y-bont

**GOHIRIO'R** penderfyniad ar y cais i ganiatáu mwy o amser neu 'gyfnod callio' er mwyn ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr asiant, ystyried arwyddocâd y gwyriad, ac ystyried y risgiau cyn adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor ym mis Medi.

**Rheswm:**
Sicrhau bod y Pwyllgor yn cael mwy o gyngor am arwyddocâd y gwyriad ac am y risgiau cyn penderfynu'n derfynol.

---

7. **Ceisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw:-**

   PENDERFYNWYD nodi'r rhestr o geisiadau cynllunio y bu i Swyddog Arweiniol Corfforaethol – yr Economi ac Adfywio ymdrin â nhw.

8. **Apeliadau cynllunio**

   Dim.

9. **Unrhyw fater arall**

   Dywedodd y Cadeirydd iddo gael gwybod yn ystod y cyfarfod fod y Cynghorydd Catherine Hughes wedi colli ei thad; estynnwyd cydymdeimlad â hithau a'i theulu.

**Cadarnhawyd y cofnodion yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Awst 2021**

**Cadeirydd:-**____________________

**Dyddiad:**______________________